



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0548/21

Diwygiedig Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2020-2021 Heddlu a Llywodraeth Leol

Annwyl Gydweithwyr

Ysgrifennaf atoch i ymgynghori'n ffurfiol â chi ar ein Hadroddiad Cyllid Llywodraeth Leol diwygiedig arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd hyn yn gwneud addasiad i setliadau Llywodraeth Leol a setliadau yr Heddu ar gyfer 2020-2021 wrth ailgydbwyso cyfrannau'r grant cymorth refeniw a'r NDR. Ni fydd y cyllid cyfanredol allanol cyffredinol wedi newid ar lefel Cymru gyfan nac ar lefel awdurdod/heddlu unigol, h.y. ni fydd yr un awdurdod yn colli nac yn elwa o'r newid hwn.

Bydd gwneud hyn yn galluogi'r Llywodraeth i reoli'r diffyg ar gyfrif yr NDR yn fwy effeithiol dros nifer o flynyddoedd. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyllid sy'n benodol i Covid a'r cyllid cyfyngedig sydd gennym i ymateb i effaith y pandemig.

Amgaeaf yr Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol diwygiedig drafft a'r tablau sy'n dangos y dadansoddiad addasedig rhwng yr NDR a'r RSG. Os cymerir y camau hyn bydd addasiadau cyfrifyddu technegol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar gyfer eich sefydliad.

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau ar y camau arfaethedig.

Gan fod hwn yn newid technegol, mae'r cyfnod hwn o ymgynghori ffurfiol am 1 wythnos gyfyngedig. Byddwn yn ddiolchgar pe bai unrhyw ymateb yn cyrraedd erbyn **11 Mawrth 2021** fan hwyrach. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at: Simon Edwards: LGFPSettlement@llyw.cymru. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon ac os hoffech drafod, cysylltwch ag Emma Smith, Simon Edwards neu fi.

Os bydd angen, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.

Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Yn gywir

Judith Cole

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau Gweithlu